# Cyrchfan Conwy
# Cyfarfod yr Is-grŵp Sgiliau
# Dydd Mawrth 5 Ionawr 2022

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Amanda Ballance (AB) | Rheolwr Cymorth Busnes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Liam Donnelly (LD) | Gwesty'r Belmont a Gwesty Llandudno Bay |
| Glenn Evans (GE) | Gwesty'r Royal Oak (Betws-y-coed) |
| Graham Jones (GJ) | Grŵp Llandrillo Menai |
| Tamzyn Lawrence (TL) | t-l-c, Betws-y-coed |
| Maria McLean (MM) | Rheolwr Masnachol, Ysgol Rydal Penrhos |
| Jon Merrick (JM) | Rheolwr Busnes a Thwristiaeth,<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tansy Rogerson (TR) | Armadillo Events |
| Cai Ross (CR) | Bwyty Paysanne |
| Nigel Treacy (NT) | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |

**1. Cyflwyniad a Chroeso**

Croesawodd JM bawb i gyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Sgiliau.

**2. Braslun o Cyrchfan Conwy**

Dechreuodd Cyrchfan Conwy tua 2010. Roedd yn gynllun i sefydlu fforymau i fusnesau twristiaeth ledled gogledd Cymru. Conwy oedd un o'r siroedd cyntaf i ddechrau cynnal cyfarfodydd.

Mae'r Cylch Gorchwyl presennol yn cynnwys pedwar o ysgogwyr allweddol:

1. Darparu cyfraniad lleol i weithrediad llwyddiannus Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy.
2. Cefnogi, monitro ac adolygu Cynllun Rheoli a Chynllun Gweithredu Cyrchfan Conwy.
3. Rhoi arweiniad a dylanwadu ar gynlluniau twristiaeth lleol, ranbarthol a chenedlaethol.
4. Bod yn gyfrwng ar gyfer cyfathrebu agored rhwng y diwydiant a chyrff cyhoeddus.

Mae Cyrchfan Conwy wedi datblygu'n dda ar hyd y blynyddoedd ac wedi dylanwadu ar Gonwy.

Wrth greu'r grŵp Cyrchfan Conwy mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ceisio rhoi penderfyniadau yn nwylo busnesau twristiaeth. Er enghraifft, Cyrchfan Conwy a luniodd y Cynllun Rheoli Cyrchfan a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Mae Cyrchfan Conwy wedi ailstrwythuro ar gyfer 2022.

Nigel Treacy yw Cadeirydd prif grŵp Cyrchfan Conwy. Nid oes Is-gadeirydd wedi'i ethol eto ond bydd yn rhaid dethol un o blith Cadeiryddion y pump o is-grwpiau.

Y grwpiau hynny yw:

1. Sgiliau
2. Rheoli
3. Marchnata
4. Strategaeth/Cynllun Gweithredu
5. Gwybodaeth i Dwristiaid/Cynllun Llysgenhadon Conwy.

Mae gan bob grŵp oddeutu un ar bymtheg o aelodau.

Mae yno hefyd Fwrdd Cyrchfan Conwy sy'n cynnwys: y Cadeirydd, Is-gadeirydd, Cadeiryddion y pump o is-grwpiau, cynrychiolydd Croeso Cymru (Andrew Forfar), Aelod Cabinet y Cyngor ar gyfer Datblygu Economaidd a Hamdden (y Cynghorydd Louise Emery) a Rheolwr Twristiaeth y Cyngor (Jon Merrick).

Mae Cadeirydd Cyrchfan Conwy hefyd yn aelod o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru a gynhelir gan Croeso Cymru.

**3. Ethol Cadeirydd y Grŵp Sgiliau**

Etholwyd Tansy Rogerson yn Gadeirydd y grŵp Sgiliau.

**4. Cylch Gorchwyl**

CAM GWEITHREDU – Byddai JM yn rhannu Cylch Gorchwyl cyffredinol Cyrchfan Conwy â'r grŵp.

Byddai'n ofynnol i'r Grŵp Sgiliau lunio ei Gylch Gorchwyl ei hun.

CAM GWEITHREDU – Byddai JM a TR yn llunio Cylch Gorchwyl ar sail y meysydd allweddol ac yn anfon fersiwn drafft at holl aelodau'r grŵp.

**5. Cynllun Gwaith i'r Dyfodol – meysydd allweddol i ganolbwyntio arnynt**

Gweledigaeth JM ar gyfer y grŵp oedd:

- Canolbwyntio ar sgiliau, cyflogaeth, recriwtio ac adnabod problemau. Roedd hynny'n anos a mwy heriol oherwydd Covid.
- Creu cysylltiad ag Academi Dwristiaeth Coleg Llandrillo a oedd yn rhan o fargen twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Roedd yr academi'n seiliedig yng Ngholeg Llandrillo ond roedd yno ganolfannau lloeren ledled gogledd Cymru. Roedd hyn yn dal yn destun ymgynghori. Roedd angen i'r grŵp sicrhau ei fod yn medru cyfrannu.

**Sylwadau gan y grŵp**

- Roedd ar y grŵp angen gofyn i Bennaeth Coleg Llandrillo ddod i roi cyflwyniad i'r grŵp. Roedd angen creu cyswllt rhwng y diwydiant lletygarwch ac addysg.

- Roedd angen hefyd creu cyswllt ag ysgolion uwchradd i drafod llwybrau gyrfa a'r ffyrdd y byddai hynny'n cyfateb i bynciau TGAU/prentisiaethau.
- Awgrymwyd gwahodd rhywun o Wasanaeth Addysg y Cyngor i gyfarfod o'r grŵp. Awgrymwyd gwahodd Christine Wynne (Rheolwr y Gwasanaeth Gwella Addysg).
- Nodwyd fod Academi Dylan's wedi ymweld â phob ysgol uwchradd yng Nghonwy ac wedi cael croeso da.
- Roedd angen siarad â Chanolfannau Gwaith a phobl Adnoddau Dynol. Soniodd JM fod gan y Cyngor dîm cyflogadwyedd. CAM GWEITHREDU – creu'r cysylltiadau a gwahodd y bobl berthnasol i gyfarfodydd.
- Roedd angen gwneud i swyddi swnio'n gyffrous a buddiol a bod yno lwybr pendant at gynnydd.
  Y rhwystr mwyaf oedd cyflogau isel. Roedd ar bobl angen llwybrau gyrfa i'w harwain at swyddi â chyflogau gwell, neu fel arall nid oedd unrhyw gymhelliant iddynt.
- Yn ôl y Ganolfan Waith, dim ond 12% o'r bobl hynny sy'n derbyn y Lwfans Ceisio Gwaith a ddymunai weithio ym maes lletygarwch yng Nghonwy.
- Roedd arnom angen adroddiad strategol ynghylch anghenion llafur y Sir. CAM GWEITHREDU – Byddai JM yn siarad â'r ymgynghorwyr.
- Yn ystod y misoedd tawel y tu allan i'r tymor gwyliau roedd cyflogaeth yn anghynaladwy a staff yn colli eu gwaith.
- Roedd dod o hyd i dai fforddiadwy o ansawdd yn broblem hefyd i unrhyw un a ddymunai symud i'r Sir.

**Cytunwyd hefyd ar y canlynol:**

- Dylai'r grŵp fod yn hyblyg a medru gwahodd gwesteion i gyfarfodydd.
- Roedd yr aelodau'n fodlon rhannu eu cyfeiriadau e-bost.
- Iaith – cytunwyd y byddai'n dderbyniol pe byddai'r cofnodion yn Saesneg yn unig.
- Cyfrinachedd – byddai'r cyfarfodydd yn gyfrinachol fel y gallai'r aelodau leisio'u barn yn ddibetrus.
- Cynllun Gweithredu – roedd hi'n bwysig llunio cynllun er mwyn creu strategaeth ymarferol.
- Hyrwyddo gwaith Cyrchfan Conwy i gynulleidfa ehangach drwy elwa ar gronfa ddata busnesau'r Cyngor, ei wefan a'i gyfryngau cymdeithasol.
- Gweithwyr – roedd angen trefnu grŵp ffocws o weithwyr lletygarwch (o bob oedran) i glywed eu barn.
- Y Gymuned Leol – dywedodd JM mai'r nod oedd gosod y gymuned leol yn ganolog ym maes twristiaeth. Roedd Conwy'n cadw golwg ar y sefyllfa am y tro. Byddai Cyrchfan Conwy yn cynnwys cymunedau lleol.
- Amlder cyfarfodydd – cynhelid yr ail gyfarfod ymhen mis er mwyn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl. Penderfynid ynghylch cyfarfodydd canlynol maes o law.
- Aelodau na fedrent fod yn bresennol – gallent gyfrannu drwy e-bost, neu efallai cwrdd â'r Cadeirydd yn unigol.
- Achres Twristiaeth – CAM GWEITHREDU – byddai JM yn llunio achres y maes twristiaeth gyda Llywodraeth Cymru ar y brig a'i hanfon at holl aelodau'r grŵp.